Duw Ffyddlondeb

Adnodau agoriadol:

"Ymestyn dy gariad, Arglwydd hyd y nefoedd, a'th ffyddlondeb hyd y cymylau." Salm 36: 5
"Y mae dy gariad wedi ei sefydlu dros byth, a'th ffyddlondeb mor sicr â'r nefoedd." Salm 89: 2
"Y mae eich Tad sydd yn y nefoedd
yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da,
ac yn rhoi glaw i'r cyfiawn a'r anghyfiawn." *Mathew 5: 45.*

Geiriau agoriadol:

Cariad digyfnewid a gofal cyson, parhaol Duw am ei greadigaeth yw hanfod ei ffyddlondeb. Nid yw'n gosod amodau na ffiniau ar ei ffyddlondeb, ac nid yw'n darfod gydag amser nac yn newid gydag amgylchiadau.

Ceisiwch weld pob digwyddiad, pob perthynas, a phob problem yn eich bywyd wedi eu cwmpasu a'u cynnal gan ffyddlondeb Duw. Gadewch i eiriau'r pennill hwn siarad â'ch angen a'ch sefyllfa chi:

Mae ei ffyddlondeb fel y môr,
Heb fesur, a heb drai,
A'i drugareddau hyfryd sy'n
Dragywydd yn parhau.

William Williams, Pantycelyn.

Gweddi:

Â'n holl galon,
â'n holl feddwl
ac â'n holl nerth:
Molwn di, Arglwydd.

Yr wyt yn ffyddlon i ni
er gwaethaf ein methiant,
er gwaethaf ein diffygion,

er gwaethaf ein tlodi ysbrydol:
Molwn di, Arglwydd.

Nid wyt yn cefnu arnom
nac yn anghofio amdanom,
er i ni dy siomi
er i ni droi oddi wrthyt,
er i ni ddiystyru a'th esgeuluso:
Molwn di, Arglwydd.

Am dy ofal mawr amdanom,
am y ddaear yn gartref i ni,
am fwyd yn gynhaliaeth i ni,
am anwyliaid yn gwmni i ni,
am dy ras yn achubiaeth i ni:
Molwn di, Arglwydd.

Gweddïwn dros y rhai
sydd wedi eu siomi
gan anffyddlondeb eraill;
y rhai sydd yn ffyddlon
yn eu ffydd a'u proffes;
y rhai sydd wedi colli gafael arnat
ac wedi cilio oddi wrthyt.
Clyw ein gweddi ar eu rhan,
dyfnha ein ffydd
a chadw ni'n ffyddlon i ti'n wastad.
Amen.

Emyn: 170 Caneuon Ffydd.
Mae emyn 170 yn seiliedig ar eiriau cyntaf Salm 107.
"Clodforwch yr Arglwydd, canys da yw: oherwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd." Salm 107: 1

Darlleniad: Salm 36

Cefndir:

Mae'r Salm yn rhannu'n hwylus i dri phen neu dair adran. Yn y rhan gyntaf ceir disgrifiad byw iawn o fywyd y drygionus yn y pedair adnod gyntaf. Emyn o fawl sydd yn yr ail adran, adnodau pump i naw ac yn yr adnodau olaf, deg i ddeuddeg, mae'r awdur yn gweddïo ac yn ymbil ar Dduw.

Darlun tywyll a dinistriol yw'r darlun a geir o'r drygionus yn yr adnod gyntaf. Mae'r gair 'llefara' yn air a ddefnyddir i gyfeirio at air Duw pan fo'n llefaru â'r proffwyd. Awgrymir felly yn y geiriau hyn, fod gan bechod yr un awdurdod yn union dros fywyd y drygionus ag sydd gan Dduw dros fywyd y proffwydi. Nid oes le i ofn Duw o gwbl ym mywyd y drygionus. Mae'r drygionus wedi'i feddiannu gan bechod ac mae'r pechodau hynny'n ymddangos yn holl rychwant ei fywyd; "Niwed a thwyll yw ei holl eiriau" ac mae'n cynllunio ei "ddrygioni yn ei wely." Darlun cwbl wahanol a gawn yn yr emyn sy'n dilyn. Yma dyrchefir cariad, ffyddlondeb a chyfiawnder Duw. Bydd dyn ac anifail yn dibynnu ar yr elfennau hyn o natur Duw. Mae'r holl fendithion a ddaw i ddyn yn dibynnu'n llwyr ar haelioni Duw, "oherwydd gyda thi y mae ffynnon bywyd, ac yn d'oleuni di y gwelwn oleuni" adn 9.

Yn dilyn y ddau ddarlun gwrthgyferbyniol yma gofynnir, yn y weddi, i'r cariad a'r cyfiawnder barhau. Os digwydd hynny bydd canlyniadau pendant, bydd bywyd yn ddiogel ac ni fydd yr erlidiwr yn llwyddo a bydd wedi ei ddarostwng, "wedi eu bwrw i'r llawr a heb allu codi" adn 12. Uchafbwynt y weddi hon yw gweddïo ar i gariad Duw barhau "at y rhai sy'n d'adnabod" adn 10.

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrio ar eiriau Salm a neges y Cefndir:

Emyn: 184 Caneuon Ffydd.

Gweddi:

Rhown ddiolch i Dduw am ei ffyddlondeb tuag atom, ei ofal drosom ar bendithion a ddaw i ni bob dydd oddi ar ei law....

Arglwydd, rho i ni galon lân a gostyngedig
i gydnabod yn ddiolchgar
dy ffyddlondeb a'th ddaioni i ni dy blant.
Diolchwn nad wyt yn rhy fawr i wrando'n gweddïau,
ond diolchwn dy fod yn ddigon mawr
i bontio'r agendor rhyngom a thydi.
Diolchwn fod dy gariad yn ddigon mawr
i ddarparu ar ein cyfer ac i wylio drosom.
Diolchwn fod dy drugaredd yn ddigon mawr
i gydymddwyn â'n gwendidau a maddau'n beiau.
Diolchwn fod dy amynedd yn ddigon mawr
i ddal gafael ynom er gwaethaf ein crwydro ffôl,
a'n tywys yn ôl at dy lwybrau.

Gweddi am ras i ni dyfu yn ein ffyddlondeb fel dilynwyr i Grist ac fel aelodau o'i eglwys.....

Arglwydd, rho ras i ni i ymateb i'th ffyddlondeb
trwy ymgyflwyno'n llwyrach i'r Arglwydd Iesu,
ac i gymdeithas a gwaith ei eglwys.
Gwna ni'n ffyddlon mewn gweddi,
yn ymroddgar mewn gwasanaeth,
ac yn lân mewn meddwl, gair a dymuniad.
Boed i ni fawrhau y fraint o berthyn i deulu dy bobl,
a byw i ryngu dy fodd.

Gweddi ar ran y rhai sydd yn gwasanaethu Duw yn ffyddlon yn ei eglwys ac yn ei fyd.....

Arglwydd, arddel a bendithia dy weision ymhob man.
Bendithia'r rhai sy'n ffyddlon i Iesu Grist:
y rhai sy'n ymdrechu dros gyfiawnder
ac yn tystio i'r gwirionedd—
rhai yn wynebu erledigaeth ac enbydrwydd.
Bendithia'r rhai sy'n ffyddlon yn eu gwaith:
y rhai sy'n dwyn eu tystiolaeth i ti
mewn swyddfa a gweithdy,
mewn ysgol ac ysbyty,

mewn senedd a chyngor.
Bendithia'r rhai sy'n ffyddlon yn eu teuluoedd:
y rhai sy'n magu plant,
y rhai sy'n gofalu am yr hen a'r llesg,
a'r rhai sy'n gwarchod aelwyd a chartref
er gwaethaf anffyddlondeb eraill.
Bendithia'r rhai fu unwaith yn ffyddlon i ti
ond sydd bellach wedi cilio:
tywys hwy yn ôl atat ac i deulu dy eglwys.
Clyw ein gweddi ar eu rhan,
a chymhwysa ni oll
i fod yn ddisgyblion mwy teyrngar
i Iesu Grist ein Harglwydd a'n Gwaredwr. Amen.

Elfed ap Nefydd Roberts.

Cydadrodd neu gydganu Gweddi'r Arglwydd:

Anerchiad:

Anffyddlondeb ydi'r gair glywn ni amlaf y dyddiau hyn. Os nad ydi'r tîm pêl-droed yn llwyddo does dim i'w wneud ond cefnu arno a chwilio am dîm arall. Mae'r siopau bach yn cael eu hanwybyddu a'n teyrngarwch yn troi at yr arch farchnadoedd a'r siopau mawr. Yn y bywyd teuluol does dim dwywaith nad ydi anffyddlondeb yn rhemp – y gŵr/y wraig yn anffyddlon i'w gilydd a'r plant hwythau yn cefnu ac yn gwrthod derbyn trefn a disgyblaeth eu rhieni. Yr un modd ym mywyd eglwys a chapel cawn bobl oedd yn arfer bod yn ffyddlon a thriw yn cefnu a cheir esgusodion rif y gwlith am hynny – ffydd yn dechrau gwegian, niferoedd yn lleihau, y gwasanaethau'n ddiflas, gwaith yn galw, angen diwrnod i fynd a'r teulu am dro ac rwy'n siŵr y gallwch feddwl am fwy o enghreifftiau. A phen draw hyn yw bod yr unigolyn yn pellhau a chefnu ar Dduw ei hun. Dydi'r unigolyn ddim yn byw yng nghymuned pobl Dduw ac felly mae'r berthynas a'r cyfeillachu yn dirywio ac yn pylu. Dadleuai gwraig yn ddiweddar, er nad oedd hi'n mynychu oedfa roedd hi'n dal mewn cymundeb â Duw. "Gallwch addoli Duw ar ochr y mynydd neu ar lan y môr" oedd ei hateb. "Fyddwch chi'n gwneud hynny?. "O na" meddai, "ond mae modd gwneud." Gweld y posibiliadau yn glir ond

methu gweithredu. Gweld posibiliadau o fod yn ffyddlon ond dal yn anffyddlon.

Beth yw nodweddion anffyddlondeb?

Mae anffyddlondeb yn pellhau. Hyd yn oed, wrth drafod pethau arwynebol fel ymlyniad wrth dîm pêl-droed, mae anffyddlondeb y cefnogwr yn ei bellhau oddi wrth y tîm. Nid oes ganddo bellach ddiddordeb yng ngweithgareddau na chanlyniadau'r tîm ac ymhen dim bydd y cyfan am y tîm hwnnw wedi mynd i ddifancoll. Bydd ei ymlyniad bellach yn troi at ei dîm newydd. Hwn bellach, fydd canolbwynt ei holl gefnogaeth a'i ddyheadau. Mae'r un peth yn wir ym mherthynas gŵr neu wraig sy'n anffyddlon y naill i'r llall. Mae perthynas oedd gynt yn hapus a chlos yn dadfeilio ac mae dieithrwch yn dod rhwng dau oedd ar un adeg yn deall ei gilydd ac yn byw i'w gilydd. Pan fyddwn yn pellhau oddi wrth Dduw bydd yr unigolyn ar lithrigfa serth iawn. Oddi mewn i gylch cymuned Duw mae canllawiau pendant ar sut i fyw y bywyd mae Duw yn ei ddymuno i ni. Cawn y côd ar gyfer y bywyd hwn, y bywyd yn ei helaethrwydd ar dudalennau'r Beibl. O droi cefn ar Dduw bydd yr unigolyn yn cefnu ar y llyfr sy'n sôn amdano a sydd yn dangos y ffordd i fyw ym mhresenoldeb Duw. Mae anffyddlondeb yn ein pellhau oddi wrth Dduw a phen draw hyn yw bod ei ddysgeidiaeth yn mynd yn ddieithr.

Mae anffyddlondeb yn parlysu. Wrth feddwl am anffyddlondeb o fewn y bywyd teuluol yn ddi-feth mae un os nad mwy yn cael eu brifo. Bydd y rhai sydd wedi eu gadael ar ôl yn teimlo i'r byw. Bydd colled fawr ar yr aelwyd, a hiraeth a bydd y plant yn teimlo eu bod wedi colli mam neu dad. Fe all y golled droi yn atgasedd ac o dipyn i beth yn niwrosis. Fe all wneud niwed corfforol, meddyliol ac ysbrydol yn ei dro. Teimlai gwraig yn gryf iawn bod ei gŵr wedi'i gadael am wraig oedd yn ffrind agos iddi. Meddai'r wraig. "Petawn i'n ei gweld hi ar y ffordd fyddai dim ots gen i dynnu cyllell allan a'i thrywanu." Dyna oedd pendraw y genfigen a'r atgasedd oedd rhyngddi ag un oedd yn ffrind agos a chlos – ei thrywanu! Anffyddlondeb yn creu atgasedd, tyndra a chenfigen. Meddyliwch am y tensiynau mae hyn yn eu creu i'r unigolyn? Cofiaf drafod unwaith â gwraig oedd yn dioddef yn ddrwg o gryd y cymalau a bod y boen yn gwaethygu tua diwedd yr haf bob blwyddyn. Ar ôl sgwrsio cefais wybod fod ei gŵr wedi'i gadael ar yr adeg yma o'r

flwyddyn a dyma ofyn iddi oedd hyn yn dal i'w phoeni. Ei hateb pendant oedd fod hyn yn gryn ofid iddi a'i bod yn teimlo'n ddig iawn tuag ato am ei gadael i ofalu am ddau o blant. Roedd ei dicter ar brydiau yn troi'n ffyrnigrwydd a'i geiriau cyson oedd, 'Fedra i ddim maddau iddo.' I dorri stori hir yn fyr, ar ôl cryn berswâd, fe faddeuodd a buan iawn y diflannodd ei phoen hithau. Mae anffyddlondeb yn gallu parlysu.

Cwestiynau i'w trafod:

Trafodwch enghreifftiau o anffyddlondeb o fewn eich profiad chi. Pa mor ddirdynnol oedd y profiad?

Beth yw'r rhesymau, yn eich tŷb chi, sy'n ein gwneud yn anffyddlon i Dduw? Ydi bod yn anffyddlon i'r eglwys yr un peth a bod yn anffyddlon i Dduw?

Emyn: 368 Caneuon Ffydd.

Gweddi:

Wnei di faddau i ni, O Dduw
am y pechodau rydym yn dwyn i'r cof wrth i ni droi atat ti.
Rydym wedi bod yn anffyddlon i ti yn ein gweddïau,
Rydym wedi bod yn anffyddlon i ti yn ein tystiolaeth,
Rydym wedi bod yn anffyddlon i ti yn ein bywydau,
wedi cefnu arnat,
wedi troi oddi wrthyt,
wedi mynd i gredu y gallwn fyw bywyd llawn hebot ti,
ac mae hyn wedi'n gwneud yn bobl groendenau a diamynedd,
yn hunangar a hunanol,
yn gwerylgar a phiwis,
yn gadael i'n geiriau a'n teimladau
fynd allan o reolaeth,
yn rhy barod i weld beiau a gwendidau eraill.
Ydi, Arglwydd, mae'r pellhau a'r anffyddlondeb
wedi'n gwneud yn bobl cwbl wahanol,
yn bobl o natur ddieflig
a chwerylgar.

Tyrd a ni'n ôl atat ti,
fel y gallwn unwaith eto
ddarganfod y tangnefedd
sy'n ein tawelu,
sy'n ein cysuro,
sy'n ein gwneud yn unol â'th ewyllys di.
Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist, ein Harglwydd. Amen.

Munud i feddwl:

Neges y Beibl, dro ar ôl tro, ydi fod Duw yn chwilio am yr anffyddlon. Dydi o ddim am i ni grwydro ymhell oddi wrtho. Er i ni ei anghofio, ei esgeuluso a'i anghofio y mae'n dal ei afael ynom. Mae'n mynd i chwilio am yr hwn sydd wedi cefnu arno. Gwelwn hyn ar ei orau yng ngweinidogaeth Iesu Grist. Yn y bymthegfed bennod o efengyl Luc, cawn hanes bachgen oedd wedi cefnu ar ei dad, ei gartref a'i gynefin. Ar ôl treulio ysbaid o amser yn y wlad bell yn porthi'r moch daeth y bachgen ato ei hun a daeth chwant arno i'w throi hi am adref. Mae'n amlwg fod ei dad yn chwilio amdano, "A phan oedd eto ymhell i ffwrdd, gwelodd ei dad ef" Luc 15: 20. Mae Duw yn chwilio am yr anffyddlon. Er bod y mab wedi cefnu ar ei dad, doedd y tad ddim am adael iddo fynd ar goll. Yn yr un hanes, tua diwedd adroddiad Luc, mae'r tad yn awyddus i ddenu'r mab hynaf i'r wledd. Mae allan ar y buarth yn cymell. Nid dadlau efo'r mab hwn wnaeth y tad ond rhannu newyddion da ag ef, "Fy mhlentyn....yr wyt ti bob amser gyda mi....yr oedd yn rhaid gwledda a llawenhau, oherwydd yr oedd hwn, dy frawd, wedi marw a daeth yn fyw; yr oedd ar goll, a chafwyd hyd iddo" Luc 15: 32.

Nid gorfodi mae Duw ond yn ei foneddigeiddrwydd mae'n ceisio ac yn cymell. Er i ni gefnu arno a diystyru ei orchmynion, y mae'n disgwyl yn faddeugar wrthym, ac mae drws ei gariad ar agor bob amser, led y pen.

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrio:

Cwestiynau i'w trafod:

Fuasech chi'n dweud fod yr Eglwys Gristnogol heddiw yn ffyddlon i'w Harglwydd? Cymerwn un enghraifft, 'Ydi'r eglwys yn byw yn gyfan gwbl er mwyn eraill ynteu bodoli er ei mwyn ei hun mae'r eglwys?

Trafodwch y pethau cadarnhaol y buasai eich eglwys chi yn gallu eu cyfrannu fel ei bod yn eglwys sy'n ffyddlon i Iesu Grist.

Emyn: 839 Caneuon Ffydd.

Litani:

Iesu annwyl, ein Brawd,
nertha ni i'th ddilyn di
i ddyfroedd dyfnion bedydd
i dorri cadwyn hen bechodau,
a'n cymhwyso ar gyfer dy yfory di;
Iesu, ein Brawd, rho nerth i ni dy ddilyn.

nertha ni i'th ddilyn i'r diffeithwch,
i ymprydio yno gyda thi,
a chefnu ar werthoedd ein bywydau moethus a bras,
gwrthod, byd esmwyth a'r llwybrau deniadol,
y llwybr sy'n ein harwain i lwyddo ar draul eraill,
llwybr y trechaf treisied.
Iesu, ein Brawd, rho nerth i ni dy ddilyn.

nertha ni i weithio'n galed mewn tref a phentref,
gan iachau ac adfer
i fwrw allan bwerau dieflig
trachwant, digofaint, casineb
a'r ofnau sy'n parlysu a niweidio a lladd.
Iesu, ein Brawd, rho nerth i ni dy ddilyn.

nertha ni i'th ddilyn i'r mannau tawel,
i eiriol ar ran pawb sydd mewn angen,
i'n paratoi ein hunain ar gyfer dy waith di, gan gyfri'r gost,
i roi ein hunain mewn trefn cyn cychwyn ar waith yn y byd.

Iesu, ein Brawd, rho nerth i ni dy ddilyn.

nertha ni i'th ddilyn i Jerwsalem
i ymwrthod â'r sylw
mai doethach yw byw y bywyd saff
a dewis yn hytrach aberthu'r hunan,
Iesu, ein Brawd, rho nerth i ni dy ddilyn.

nertha ni i'th ddilyn hyd yn oed i'r groes
a rhoi'n holl obaith yn y cariad hunanaberthol
gan farw i bob dim sydd ynom
nad yw wedi ei genhedlu o'th gariad di
Iesu, ein Brawd, rho nerth i ni dy ddilyn.

nertha ni yn y diwedd i'th ddilyn o anobaith y bedd
i fod â chyfran ym mywyd yr Atgyfodiad,
i'n bywhau beunydd yn dy gorff newydd
sy'n dal i gael ei dorri er mwyn y byd.
Iesu, ein Brawd, rho nerth i ni dy ddilyn. Amen.

Addasiad o waith Christopher Duraisingh o Litani Disgyblion y Groes

Y Fendith:

Boed i lawenydd ffyddlondeb
fod yn eiddo i ni.
Yr hapusrwydd sy'n
brawf ein bod yn ffyddlon
i ti ac i'th bobl ar y ddaear. Amen.